



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y Sector ôl-16

Astudio ar gyfer Safon UG, Safon Uwch a  
Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru o fis Medi  
2020?

Canllawiau i Ddysgwyr

Fersiwn 1.0

Awst 2020



**DIOGELU CYMRU**  
**KEEP WALES SAFE**



UNDEB EYFROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**  
**European Social Fund**

Mae'r cyngor hwn yn cael ei roi er mwyn helpu myfyrwyr UG, Safon Uwch a Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru wrth i chi gychwyn neu barhau eich astudiaethau ym mis Medi 2020, yng nghysgod y pandemig COVID-19.

## **Dyma gynghorion ac awgrymiadau i'ch helpu i astudio'n llwyddiannus:**

**Byddwch yn bositif!** Llongyfarchiadau ar symud i'r chweched dosbarth, dechrau yn y coleg neu barhau â'ch astudiaethau Safon Uwch. Mae'n siŵr eich bod yn teimlo'n gyffrous am yr her newydd hon ac efallai hyd yn oed ychydig yn nerfus. Peidiwch â phoeni, mae pob ysgol a Choleg yn barod i'ch cynghori a'ch cefnogi gyda'ch dewisiadau ac i'ch helpu i bontio i Safon Uwch naill ai yn yr ysgol neu yn y coleg. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, siaradwch â'ch athrawon a'r staff sy'n gofalu am ddysgwyr Safon Uwch.

**Byddwch yn garedig!** Mae'n bwysig deall bod pethau wedi newid, a bod llawer ohonom yn addasu i'r angen i weithio o bell ar rai adegau. Mae gan bawb heriau gwahanol i'w hwynebu, boed hynny yn ein bywyd personol yn ogystal ag yn yr ysgol neu yn y coleg. Byddwch yn gefn i bobl eraill, byddwch yn gefnogol i'ch athrawon sy'n gweithio'n galed i addasu i ffordd newydd o weithio.

**Byddwch yn wydn!** Byddwch yn ddewr, a pheidiwch â phoeni am gael pethau'n anghywir. Gwrandewch yn astud ar adborth athrawon a gofynnwch os nad ydych yn deall er mwyn i chi allu gwella. Mae pawb yn gwneud camgymeriadau, ac mae gwneud camgymeriadau'n rhan o'r broses ddysgu. Byddwch yn hyblyg, gan gydweithredu â'r athrawon; efallai y byddwch yn gweld bod angen i'r ffordd o gyflwyno eich gwersi newid heb fawr o rybudd.

**Byddwch yn uchelgeisiol!** Mae cael uchelgais a dyhead yn beth da! Mae rhai pobl yn gwybod pa yrfaedd y maent am eu dilyn, bydd eraill yn defnyddio'r amser hwn i geisio canfod hynny. Beth bynnag sydd gan y dyfodol i'w gynnig, gosodwch y targedau o fwynhau eich astudiaethau, cael y graddau gorau posibl a symud ymlaen tuag [at yrfa wych](#).

**Byddwch yn annibynnol!** Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am yr holl ddyddiadau ar gyfer cyflwyno gwaith a'ch bod yn cadw at y dyddiadau hynny. Defnyddiwch y deunyddiau y mae eich athrawon yn eu rhoi i chi a gwnewch nodiadau o'r prif bwyntiau. Cadwch eich gwaith yn drefnus a gorffennwch dasgau bob amser. Penderfynwch ar adeg yn yr wythnos phan fyddwch yn adolygu eich gwaith, yn gwneud nodiadau ychwanegol ac yn gwneud eich gwaith cartref.

**Gofynnwch gwestiynau!** Cofiwch feithrin angerdd dros eich pynciau; chwiliwch am erthyglau, llyfrau ac adnoddau ar-lein diddorol er mwyn i chi allu darganfod ac archwilio gwybodaeth ddiddorol am eich pynciau, sydd y tu hwnt i'r manylebau. Gallwch hefyd [edrych ar Hwb i gael rhagor o wybodaeth am ddysgu ôl-16](#). Meddyliwch am gwestiynau yr hoffech eu gofyn a cheisiwch ddod o hyd i'r atebion. Pan gewch y cyfle mewn gwersi, seminarau neu sesiynau tiwtorial, holwch siaradwyr gwadd a gofynnwch i arbenigwyr am gyngor. Peidiwch â bod ofn herio syniadau, damcaniaethau ac astudiaethau achos. Edrychwch ar bethau o wahanol onglau bob amser i'ch helpu i ganfod cymhlethdodau a gwrthgyferbyniadau.

**Defnyddiwch synnwyr cyffredin!** Cofiwch ymgyfarwyddo â manyleb y pynciau rydych chi wedi'u dewis yn dda iawn. Sicrhewch eich bod yn deall beth mae'r geiriau gorchmynnol yn eu golygu i'ch helpu i gael sgoriau uchel wrth ateb cwestiynau arholiad. Dysgwch yr holl gysyniadau a therminoleg arbenigol. Defnyddiwch adnoddau dysgu ar-lein i ymarfer [cwestiynau arholiad](#) o'r gorffennol ac edrychwch ar gynlluniau marcio i'ch helpu i ddeall beth sydd ei angen i gael y marciau uchaf. Defnyddiwch y [fanyleb](#) i amlinellu syniadau allweddol a'r hyn y mae angen i chi ei wybod. Gallai hwn fod yn fframwaith gwych ar gyfer nodiadau adolygu.

**Byddwch yn fedrus!** Dysgwch pa ddull o gymryd nodiadau sy'n gweddu orau i chi. Gall hyn fod yn ddiagramau corryn neu'r [dull Cornell](#). Defnyddiwch gyfleoedd fel y rhai sy'n rhan o'ch astudiaethau Bagloriaeth Cymru i ddysgu sut i ymchwilio a chyfeirio at ffynonellau cyfeirio. Mae'r rhain i gyd yn sgiliau hanfodol ar gyfer llwyddo mewn astudiaethau pellach yn y brifysgol ac ar gyfer llawer o yrfaoedd. Manteisiwch ar y cyfle i ddatblygu'n gydweithiwr ar-lein medrus; bydd dysgu a gweithio o bell yn debygol o fod yn rhan bwysig o'ch gyrfa.

**Byddwch yn rhan o'r tîm!** Mae astudiaethau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru yn aml yn golygu bod rhaid gweithio fel rhan o dîm bach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwrando'n astud mewn grŵp ac yn ystyried safbwyntiau a barn pobl eraill. Mae'n dda edrych ar faterion o wahanol safbwyntiau, felly manteisiwch ar y gwahaniaethau mewn grwpiau a bod yn barod i edrych ar bethau mewn ffordd newydd. Cofiwch gael hwyl a defnyddio cyd-fyfyrwyr i rannu'r llwyth gwaith. Ceisiwch greu grwpiau astudio a dysgu pethau gyda'ch gilydd. Gall grwpiau astudio fod yn gweithio wyneb yn wyneb neu gall fod yn rhithiol. Mae dysgu eraill yn ffordd wych o ddysgu a chofio pethau. Rhowch rhywbeth yn ôl i eraill drwy fentora a chefnogi dysgwyr yn eich ysgol/coleg.

**Byddwch yn agored!** Peidiwch â chadw eich gofidiau i chi eich hun. Siaradwch yn onest â phobl am sut rydych yn teimlo a gofynnwch am help

pan fydd ei angen arnoch. Mae pawb yn cael ddyddiau gwael, ond mae rhannu problem yn ei haneru. Mae'r pandemig wedi rhoi pobl o dan bob math o bwysau ychwanegol. Bydd gan ysgolion a cholegau staff ac adnoddau i'ch cefnogi chi, waeth beth yw'r heriau sy'n eich wynebu. Mae llawer o adnoddau ar gael i gefnogi eich lles a'ch [iechyd meddwl](#).

**Byddwch yn iach!** Gwnewch amser ar gyfer hobïau, diddordebau a hwyl. Os ydych yn poeni am unrhyw beth, siaradwch â'ch teulu, ffrind neu athro. Os oes angen help arnoch, mae llawer o bobl mewn ysgolion a cholegau sy'n barod i'ch cefnogi.

**Byddwch yn wych yn eich ffordd chi!** Dylech bob amser weithio'n galed fel y gallwch fod yn falch o'r hyn yr ydych yn ei gyflawni. Cynhyrchwch waith manwl sy'n bodloni gofynion y dasg. Achubwch ar gyfleoedd i ddysgu pethau newydd, cymryd rhan yn y gymuned ddysgu a gadael gwaddol i'r genhedlaeth nesaf. Dylech bob amser baratoi ar gyfer gweithgareddau a cheisio rhoi o'ch gorau i bob tasg. Gosodwch dargedau realistig ond heriol sy'n eich ymestyn chi a'ch helpu i'ch cadw'n frwdfrydig.

